Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Cernyw

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae arweinyddiaeth gadarn ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Gyda'r wybodaeth hon, maent yn mynd ati'n gydwybodol i wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cymuned glòs yn bodoli yn yr ysgol. Drwy hyn, ac ymdeimlad cartrefol a chynhwysol sy'n cael ei greu, mae disgyblion yn arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Nodwedd gref o'r addysgu a'r dysgu yw'r modd mae disgyblion yn datblygu medrau llafar cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae disgyblion hefyd yn meithrin cariad tuag at ddarllen yn fwriadus, gyda'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau craidd, fel eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ar draws y cwricwlwm. Er bod enghreifftiau da o'r cyfleoedd hyn, sy'n datblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn, nid oes digon o gyfleoedd cyson iddynt adeiladu ar eu medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu estynedig, yn gyffredinol.

Mae'r berthynas waith rhwng athrawon a'r disgyblion yn gryfder, ac mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad y maent yn eu cynnig i ddisgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r staff cyfan yn rhyngweithio â disgyblion ac â'i gilydd yn hynod effeithiol, sy'n creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fagu brwdfrydedd at eu dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb disgyblion, gan roi adborth a chymorth defnyddiol iddynt, ar y cyfan. Er hyn, ar adegau, mae athrawon yn darparu gormod o arweiniad i ddisgyblion sy'n llesteirio eu gallu i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac nid yw pob tasg yn llwyddo i herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

# Argymhellion

**A1** **Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd, eu medrau digidol, a’u gallu i ysgrifennu’n estynedig ar draws y cwricwlwm**

**A2** **Sicrhau bod athrawon yn herio disgyblion hyd eithaf eu gallu, ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Cernyw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 69 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 66.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 19/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/09/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  27/11/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.